CYNULLEIDFA DEYRNGAR YN DILYN ARWEINIAD CRIST

Nodyn i'r siaradwr:
Helpwch y gynulleidfa i sylweddoli fod Jehofah yn gofyn teyrngarwch gan ei weision. Wrth gyferbynnu enghreifftiau yn y Beibl o rai teyrngar ac annheyrngar, pwysleisiwch fod gan y rhai teyrngar berthynas dda gyda Duw. Dangoswch fod y rhai sy'n aros yn deyrngar i Jehofah yn medru dibynnu arno i'w helpu nhw

MAE'R RHAI SY'N DEYRNGAR IDDO YN DERBYN FFAFR JEHOFAH (4 mun.)

Mae teyrngarwch yn debyg i garedigrwydd—mae'n glynu'n gariadus wrth wrthrych nes bod amcan gwneud hynny'n cael ei gyflawni (*it*-2 280)

Mae Duw yn gweithredu'n deyrngar gyda'r rhai teyrngar (2Sam 22:26)

Gwelwn hyn yn ymwneud Jehofah gyda Iesu, ei brif "un teyrngar" (Salm 16:10)

Fe atgyfododd Jehofah Iesu a'i ddyrchafu i'w "ddeheulaw" (Actau 2:24-28, 31-36)

Gosododd Iesu yn Ben ar y gynulleidfa (Eff 1:20-22; Col 1:18)

Mae Jehofah yn ffafriol gydnabod y rhai sy'n deyrngar iddo, ac mae'n ateb eu gweddïau (Salm 4:3)

Oherwydd eu teyrngarwch iddo a'u hyder ynddo, mae Jehofah yn gwarchod eu llwybr ac yn rhoi ei ysbryd iddynt (1Sam 2:9; Actau 5:32)

Mae'n llesol inni ddod i ddeall beth mae teyrngarwch yn ei olygu a sut medrwn ei weithredu

ENGHREIFFTIAU O'R BEIBL O RAI TEYRNGAR A RHAI ANNHEYRNGAR (17 mun.)

Bydd ystyried enghreifftiau o rai teyrngar ac annheyrngar yn y Beibl yn ein helpu i ddeall ystyr teyrngarwch duwiol

Jacob ac Esau

"Diystyrodd Esau ei enedigaeth-fraint," 'roedd boddhad personol yn fwy pwysig iddo na phethau cysegredig (Gen 25:34; Heb 12:16, 17)

'Doedd e ddim o ddifri' ynglŷn â chredu addewidion Duw nac yn ei berthynas â Duw; 'doedd e ddim yn rhoi iawn ystyriaeth i bethau ysbrydol

Ond 'roedd Jacob yn gwerthfawrogi pethau ysbrydol, megis yr enedigaeth-fraint, yn fawr

Fe enillodd Jacob gariad Jehofah oherwydd ei ymddygiad a'i agwedd at addewidion Duw (Rhuf 9:13)

Fe ddaeth yn un o gyn-dadau Iesu Grist

Moses a Cora

'Doedd gan Cora ddim parch at Jehofah na'i gyfundrefn (*w*00 8/1 10-11; *w*97 8/1 8-9)

Fe siaradodd yn enllibus am yr arweinwyr a cheisio'i ddyrchafu ei hun (Num 16:1-3; Jwdas 11)

'Roedd Moses yn wylaidd ac yn amyneddgar, ac yn parchu gair Jehofah a'i awdurdod yn fawr (Ex 18:17-19a, 24)

Er iddo gael ei hyfforddi yn holl ddoethineb Yr Aifft, 'doedd e ddim am ei ddyrchafu ei hun (Num 12:3; Actau 7:22)

Ac yntau'n broffwyd ffyddlon, 'roedd e'n ddarlun o Iesu (Actau 3:22, 23; Heb 3:1, 2, 5; *w*84 9/15 31)

Phinees a Balaam

Aeth Balaam yn hollol groes i ewyllys Jehofah; dilynodd gwrs hunanol a chaniatáu puteindra (Dat 2:14)

'Roedd Phinees yn deyrngar i Jehofah ac yn frwdfrydig dros lendid cynulleidfa Dduw, waeth beth oedd nifer y troseddwyr na'u safle nhw (Num 25:6-9, 14, 15)

Mae'r cofnod amdano yn esiampl tra rhagorol am un oedd wedi ymroi i gyfiawnder (Salm 106:30, 31)

Gwnaeth Jehofah gyfamod gyda Phinees i gadw'r offeiriadaeth yn ei linach (Num 25:10-13)

Dafydd a Saul

'Roedd Saul yn benderfynol o fwrw ymlaen yn ddigywilydd â'i syniadau ei hun; 'roedd e'n annheyrngar; wnaeth e ddim cadw at gyfarwyddiadau Jehofah ynglŷn ag Amalec a'i brenin, Agag

Gwrthododd Jehofah Saul (1Sam 15:17-23)

'Roedd Dafydd wrth fodd calon Jehofah; fe ddangosodd ymddiried llwyr a hyder yn Jehofah

Yn wahanol i Saul, 'roedd Dafydd yn ostyngedig yn cydnabod ei wallau, ac yn edifar am ei bechodau mawr (Salm 51:1-4)

'Roedd e'n caru Jehofah yn fawr ac 'roedd bob amser yn dangos agwedd dderbyniol yn ei galon (Actau 13:22)

Fe ddaeth yn rhaglun o Iesu (Jer 23:5, 6; Math 1:1)

SUT MEDRWN FOD YN DEYRNGAR I GRIST A'R GYNULLEIDFA (20 mun.)

Mae rhai teyrngar yn ymostwng i'r drefn theocrataidd (1Cor 11:3)

Mae Crist, ac yntau'n Ben ar y gynulleidfa, yn haeddu teyrngarwch pob aelod (Math 23:10; Eff 5:23)

Mae disgwyl i bawb sy'n gysylltiedig â'r gynulleidfa Gristnogol hefyd fod yn deyrngar i drefn Duw (1Tim 2:8; Titus 1:8)

Mae'r "gwas ffyddlon a chall" yn gofalu am fuddiannau daearol y gynulleidfa, ac yn cael ei 'nabod gan y gwaith mae'n ei gyflawni (Math 24:45-47)

Mae'r rhai ffyddlon yn glynu'n deyrngar wrth ddosbarth y gwas, gan roi cefnogaeth lawn iddo (Math 25:40; Actau 16:4, 5)

Mae rhai teyrngar yn dysgu llawer o'r esiamplau yn yr Ysgrythurau (Rhuf 15:4)

Mae gweision teyrngar Duw yn efelychu ysbryd Jacob gan ymdrechu'n galed i fod yn ysbrydol eu meddylfryd

Maen' nhw'n parchu pethau ysbrydol ac yn eu cefnogi nhw—pethau fel Gair Duw, y cyfarfodydd, a'r gwaith pregethu (*w*88 6/15 10-15)

Maen' nhw'n cydnabod mai arf Duw ydi'r gynulleidfa i gyhoeddi ardderchowgrwydd Jehofah (1Pedr 2: 9, 10)

Mae Jehofah yn caru rhai gwylaidd fel Moses, ac maen' nhw'n derbyn caredigrwydd anhaeddiannol ganddo (Rhuf 12:3; Jas 4:6)

'Dyw rhai fel hyn ddim yn eu gwthio'u hunain i'r blaen, a 'dydyn' nhw ddim chwaith yn ddiamynedd (*w*00 8/1 12)

Maen' nhw'n ofalus i beidio bwrw sen ar weision Jehofah a threfniadau'r gyfundrefn

Maen' nhw'n ymateb yn brydlon i arweiniad theocrataidd (Heb 13:17)

Mae Cristnogion teyrngar yn dangos yr un ysbryd â Phinees

Maen' nhw'n deyrngar i safonau moesol Jehofah ac yn cefnogi rheidrwydd sicrhau purdeb ysbrydol y gynulleidfa (Col 3:5; 2Pedr 2:15, 16; 3:11, 14)

Maen' nhw'n cadw ar wahan i'r byd a'i bethau (Iago 4:4)

Mae'r rhai teyrngar fel Dafydd yn ymroi â'u holl galon i Dduw

Heb laesu dwylo maen' nhw'n brwydro'n ysbrydol

Maen' nhw bob amser yn barod i ymddwyn yn dyner a thosturiol at eraill (Eff 4:32; 1Pedr 3:8)

Bydd teyrngarwch yn ein hysgogi ni i ystyried ein perthynas â Jehofah yn rhywbeth gwerthfawr iawn, i'w wasanaethu'n ffyddlon, ac i fod yn ddiofn wrth ddod ar draws gwrthwynebiad

Bydd teyrngarwch yn ein helpu i amlygu dilysrwydd ein ffydd (1Pedr 1:6, 7)

GWOBR AROS YN DEYRNGAR I SWYDDOGAETH CRIST YN BEN (4 mun.)

Dangoswch eich bod yn deall mor llesol ydi bod yn deyrngar i'r drefn theocrataidd

Ymhlith y bendithion mae undod y gynulleidfa, sy'n meithrin heddwch a threfn (Salm 133:1; 1Cor 14:33, 40)

Mor wahanol ydi'r gynulleidfa Gristnogol i'r byd y tu allan—byd hunanol, annheyrngar a rhanedig

Mae'n wir, fel d'wedodd y broffwydoliaeth, fod tyrfaoedd 'nawr yn cydnabod eu hangen i gysylltu ag Israel ysbrydol, cynulleidfa Duw (Sech 8:23; Dat 7:9, 14, 15)

Cadwch mewn cysylltiad agos â chynulleidfa sanctaidd Jehofah, a dangos parch dwfn iddi

Ymostyngwch i Grist, Pen y gynulleidfa, ac i'r drefn theocrataidd

Gallwch fod yn sicr y bydd Jehofah a'i Grist bob amser yn deyrngar i'w teyrngar rai (Salm 18:25; 97:10; Diar 2:8)

(Glynwch yn glòs at y defnydd a amlinellir, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)